POLISI DIOGELU CLARENCE HALL
Diweddarwyd ddiwethaf Ionawr 2023

DATGANIAD POLISI

Bwrdd Rheoli Clarence Hall (y Bwrdd Rheoli) yw'r corff rheoli ar gyfer Clarence Hall, Crickhowell, sy'n elusen gofrestredig (1187701) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (11971202).

Mae'r polisi hwn yn diffinio sut mae Clarence Hall yn gweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Bydd y polisi hwn yn berthnasol i bob gweithiwr, contractwr a gwirfoddolwr.

Mae gan y Bwrdd Rheoli ddyletswydd gofal ac mae wedi ymrwymo i amddiffyn a diogelu pawb sy'n dod i mewn i'n safle gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl sy'n dod i'r Neuadd fel ymwelwyr a/neu fel cyfranogwyr ym mhob gweithgaredd a digwyddiad.

Mae ganddo hefyd ddyletswydd i ddiogelu a chefnogi ein hymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a gweithwyr.

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisi Chwythu'r Chwiban y Neuadd, sydd ar gael ar wefan y Neuadd yn https://www.clarencehallcrickhowell.org.uk.

DIFFINIADAU

(i) Diffinnir **Plant a phobl ifanc** fel yr unigolion hynny sydd o dan 18 oed. Diffinnir diogelu a hyrwyddo lles plant fel:

- amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin
- atal amharu ar iechyd a datblygiad plant
- sicrhau bod plant yn tyfu i fyny mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol
- gweithredu i alluogi pob plentyn i gael y canlyniadau gorau.

(ii) Oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso
At ddibenion y polisi hwn, mae oedolyn mewn perygl yn cyfeirio at rywun dros 18 oed sydd, yn unol â pharagraff 14.2 Deddf Gofal 2015:

- ag anghenion gofal a chymorth
- yn profi, neu mewn perygl o brofi, camdriniaeth neu esgeulustod
- o ganlyniad i'w anghenion gofal a chymorth yn methu ag amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu'r esgeulustod neu'r perygl o hynny.

Os oes gan rywun anghenion gofal a chymorth ond nad yw'n cael gofal neu gymorth gan wasanaeth iechyd neu ofal ar hyn o bryd, mae'n bosibl iddo ddal i fod yn oedolyn sydd mewn perygl.

UNIGOLYN A EFFEITHIR

- Pob ymddiriedolwr, gwirfoddolwr a gweithiwr
- Pawb sy'n mynychu unrhyw weithgaredd neu wasanaeth sy'n cael ei gyflwyno o'r Neuadd
- Pob ymwelydd a chontractwr

EGWYDDORION POLISI

Nid oes unrhyw esgus dros beidio â chymryd pob cam rhesymol i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hecsbloetio, eu radicaleiddio a'u cam-drin. Mae hawliau holl ddinasyddion y Deyrnas Unedig wedi'u hymgorffori yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Gallai pobl sy'n gymwys i dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymunedol fod yn agored hefyd i weld yr hawliau hyn yn cael eu torri oherwydd anabledd, nam, oedran neu salwch.

Mae gan Clarence Hall, Crickhowell agwedd o ddim goddefgarwch tuag at gamdriniaeth.

Mae Clarence Hall, Crickhowell yn cydnabod bod ganddi ddyletswydd o dan Ddeddf Gofal 2014 i ofalu am ac amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae hefyd yn cydnabod ei chyfrifoldebau dros ddiogelwch a gofal plant o dan Ddeddf Plant 1989 a 2004. Mae Clarence Hall, Crickhowell wedi ymrwymo i hyrwyddo lles, atal niwed ac ymateb yn effeithiol os codir pryderon.

Mae'r polisi yn ymwneud ag atal cam-drin lle mae'n digwydd ac atal cam-drin lle mae perygl y gallai ddigwydd.

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi ymrwymo i'r egwyddorion a ganlyn:

- Mae lles y plentyn, yr oedolyn ifanc neu'r oedolyn sydd mewn perygl yn hollbwysig
- Mae gan bob plentyn, oedolyn ifanc ac oedolyn sydd mewn perygl yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth
- Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb: er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol dylai pob gweithiwr proffesiynol a sefydliad chwarae eu rhan yn llawn; a
- Rhaid i bob amheuaeth a honiad o gam-drin gael eu hadrodd yn briodol i'r awdurdodau mewnol ac allanol perthnasol a'u trin yn gyflym ac yn briodol.

GWEITHDREFNAU

i Bydd holl aelodau'r Bwrdd Rheoli a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn:

a) llofnodi Datganiad Cymhwysedd Ymddiriedolwyr blynyddol sy'n cynnwys datganiad nad oes ganddynt unrhyw euogfarnau mewn perthynas â chamdriniaeth.

b) ymgyfarwyddo â chyfrifoldebau diogelu; ymgymryd â hyfforddiant ar faterion diogelu, gan gynnwys chwythu'r chwiban, lle mae ar gael ac yn cael ei gynnig gan eu bwrdd/partneriaeth diogelu lleol neu sefydliad cymorth lleol arall; sicrhau eu bod yn deall yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn.

c) cydweithio i hyrwyddo diwylliant sy'n ei gwneud yn bosibl i faterion sy'n ymwneud â diogelu a hybu lles gael eu trin.

ii Ni fydd gan holl aelodau'r Bwrdd Rheoli a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, cynorthwywyr neu wirfoddolwyr eraill fynediad heb oruchwyliaeth at blant neu oedolion sydd mewn perygl oni bai eu bod wedi'u fetio'n briodol.

iii Bydd aelod o'r Bwrdd Rheoli yn cael ei benodi i fod yn gyfrifol am faterion diogelu plant ac oedolion mewn perygl. Bydd yr unigolyn hwn yn gyfrifol am adrodd am bryderon sy'n codi, fel mater o frys, i'r asiantaeth ddiogelu berthnasol. Hyd nes y clywir yn wahanol yr unigolyn a enwir yw **Dean Christy,** y gellir cysylltu ag ef ar 07850 731514 neu deanchristy@talk21.com

iv Bydd pob amheuaeth neu honiad o gam-drin yn erbyn plentyn neu oedolyn mewn perygl yn cael ei gymryd o ddifrif ac yn cael ei drin yn gyflym ac yn briodol. Bydd yr unigolyn penodedig yn gwybod pwy i gysylltu ag ef a ble i fynd i gael cymorth a chyngor mewn perthynas â honiad, pryder am ansawdd y gofal neu'r ymarfer neu gwyn. Gallai honiad ymwneud ag unigolyn sy'n gweithio gyda phlant neu oedolyn mewn perygl sydd:

a) wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn neu oedolyn mewn perygl neu a allai fod wedi niweidio plentyn neu oedolyn mewn perygl.

b) o bosibl wedi cyflawni trosedd yn erbyn neu'n gysylltiedig â phlentyn neu oedolyn mewn perygl; neu

c) wedi ymddwyn tuag at blentyn neu blant neu oedolyn sydd mewn perygl mewn ffordd sy'n dangos y gallent achosi perygl o niwed i blant.

v Bydd y Bwrdd Rheoli yn sicrhau bod holl logwyr y neuadd wedi arwyddo cytundeb llogi. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob llogwr sy'n dymuno defnyddio'r neuadd ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys plant ac oedolion mewn perygl, ac eithrio i'w llogi ar gyfer partïon preifat a drefnir ar gyfer ffrindiau a theulu gwadd, gynhyrchu copi o'u Polisi Diogelu a thystiolaeth eu bod wedi cyflawni gwiriadau perthnasol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

vi Bydd y Bwrdd Rheoli yn cynnal adolygiad blynyddol o'r polisi hwn.

vii Bydd y ddogfen Lywodraethu yn cael ei hadolygu bob yn hyn a hyn i sicrhau ei bod yn adlewyrchu strwythur a chyfrifoldebau'r sefydliad.

viii Bydd y Bwrdd Rheoli yn darparu hyfforddiant i holl aelodau newydd y corff llywodraethu yn syth ar ôl eu penodi, yn ogystal ag i wirfoddolwyr sydd â chyswllt wyneb-yn-wyneb gyda phlant neu oedolion agored i niwed.

CYMORTH A CHYNGOR PELLACH

Dylid nodi pryderon am oedolion agored i niwed gyda Powys People Direct (Ffôn 01597 827666) neu Action on Elder Abuse (Ffôn 0808 8088141).

Gellir cael cymorth a chyngor pellach gan yr NSPCC (Ffôn 0808 800 500) neu Childline (Ffôn 0800 1111).

Dyddiad y diweddariad diwethaf a chymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli: Ionawr 2023

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Ionawr 2024

Swyddog cyfrifol: Dean Christy (07850 731514 neu deanchristy@talk21.com)